

Tasg 1

Addewidion, addewidion!

1.

O'r addewidion, **dewiswch a chopïwch** y geiriau sy'n golygu:

swm o arian at bwrpas arbennig

rhoi arian at rywbeth gan ddisgwyl elw

rhoi cyflog i rywun am waith

newid yn llwyr

cael gwared ar

gwneud deirgwaith gymaint

ffyrdd, adeiladau, cyflenwad trydan,

y we; popeth sydd ei angen er mwyn i

gymdeithas weithio'n iawn

sy'n gallu cael ei/eu fforddio

2.

Mewn grwpiau, edrychwch ar addewidion y pleidiau **fesul maes**.

Trafodwch ymhlith eich gilydd er mwyn gallu **rhoi'r addewidion yn nhrefn blaenoriaeth**.

Rhowch 1 wrth yr addewid y mae'r grŵp yn ei hoffi orau, a gweithiwch i lawr y drefn.

Ydy pawb yn cytuno? Sut dewch chi i gyfaddawd os oes anghytuno yn y grŵp?

Cymharwch eich trefn chi â threfn y grwpiau eraill yn y dosbarth.

3.

Dewiswch un maes uchod.

Paratowch gwestiynau y byddech chi'n eu holi i bob un o'r pleidiau ynghylch eu polisiau.

Enw'r blaid	Cwestiynau i'w holi
Y Blaid Lafur	
Y Blaid Geidwadol	
Plaid Cymru	
Y Blaid Werdd	
Y Democratiaid Rhyddfrydol	

4.

At ba etholwyr y mae'r pleidiau'n ceisio apelio gyda'u polisiau? Edrychwch drwy bolisiau'r pleidiau fesul un.

Enw'r blaid	Yn ceisio apelio at:
Y Blaid Lafur	
Y Blaid Geidwadol	
Plaid Cymru	
Y Blaid Werdd	
Y Democratiaid Rhyddfrydol	

5.

Llithr ddarllenwch y testun.

Petaech chi'n gorfod creu **cwmwl geiriau** o'r polisiau, pa eiriau fyddai fwyaf eu maint?
(*Mewn cwmwl geiriau, mae'r geiriau sy'n cael eu defnyddio amlaf mewn testun yn ymddangos yn fwy eu maint, a'r geiriau lleiaf aml yn ymddangos yn llai eu maint*),

Rhestrwch y geiriau amlaf eu defnydd yma, yna meddyliwch PAM mai dyma'r geiriau mwyaf aml eu defnydd.

6.

Lluniwch eich addewidion eich hun.

Gan weithio gyda'r un grŵp ag y gwnaethoch chi ar gyfer ymarfer 2, meddyliwch am bob pennawd: Iechyd, Addysg, Gofal... a **llunio un neu ddau o addewidion** ar gyfer pob un.

- Ceisiwch beidio â defnyddio'r addewidion sydd gan y pleidiau'n barod. Ond, os yw **rhannau** o addewidion gwahanol bleidiau'n apelio, gallech chi eu cyfuno.
- Oes maes arall y byddech chi'n dymuno ei ychwanegu, e.e. **Pobl Ifanc?** Lluniwch bolisiau ar gyfer y maes hwn hefyd.
- Cofiwch fod y Cynulliad yn gyfrifol am y meysydd hyn: Iechyd, Trafnidiaeth, Addysg, Diwylliant, Amaethyddiaeth, y Gwasanaethau Tân ac Achub, Twristiaeth, Datblygu Economaidd, Tai, yr Amgylchedd a Choedwigaeth, Adeiladau Hanesyddol, y Gymraeg. A oes polisiau penodol yr hoffech eu creu ar gyfer rhai o'r meysydd hyn?
- Cymharwch eich addewidion chi ag addewidion grwpiau eraill. Fyddech chi'n gallu **cyfaddawdu** (fel mae'n rhaid i bleidiau wneud weithiau wrth gydweithio mewn **clymblaid**)?